# PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 8 MAI 2001

Dechreuodd y Sesiwn am 2.00pm

**Ethol Eleanor Burnham i Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd**
*NDM643* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 15.4 yn ethol Eleanor Burnham (Democrat Rhyddfrydol) i Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd i olynu Christine Humphreys (Democrat Rhyddfrydol).

Cynhaliwyd pleidlais
O Blaid 37; Ymatal 0; Yn Erbyn 0; Cyfaswm 37.
Cymeradwywyd y cynnig

**Ethol Eleanor Burnham i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal**
*NDM639* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 14.3, yn ethol Eleanor Burnham (Democrat Rhyddfrydol) i'w Bwyllgor Cyfle Cyfartal yn lle Christine Humphreys (Democrat Rhyddfrydol).

Cynhaliwyd pleidlais
O Blaid 35; Ymatal 0; Yn Erbyn 0; Cyfaswm 35.
Cymeradwywyd y cynnig

**Ethol Mike German i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd**
*NDM640* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â rheol sefydlog 15.4, yn ethol Mike German (Democrat Rhyddfrydol) i'w Bwyllgor Materion Ewropeaidd yn lle Mick Bates (Democrat Rhyddfrydol).

**Gofynnodd fwy na 3 Aelod i'r gloch gael ei chanu cyn cynnal y bleidlais, yn unol â Rheol Sefydlog 6.21.**

Cynhaliwyd pleidlais

O Blaid 27; Ymatal 20; Yn Erbyn 0; Cyfaswm 47.
Cymeradwywyd y cynnig

**2.16pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd yr 11 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 1.

**2.56pm**
**Datganiadau:**

**Y Gweinidog Materion Gwledig** ar Effaith Clwy'r Traed a'r Genau

**3.35pm**
**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg** ar Ariannu'r Eisteddfod Genedlaethol

**3.56pm**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.59pm**
**Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog**
*Bydd y Trefnydd yn gwneud cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y Cynnig Heb Ddyddiad Trafod canlynol a gyflwynwyd ar 1 Mai 2001*

*NNDM652* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 34:

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mai 2001; ac

(ii) yn cymeradwyo'r gwelliannau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;

Rheol Sefydlog 23, adran 3

Ym mharagraffau 23.11E a 23.12, ym mhob man, yn lle "9 Mai, 2001" rhowch "30 Mehefin 2001".

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol**
O Blaid 44; Ymatal 0; Yn Erbyn 0; Cyfaswm 44.
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig gwreiddiol**
O Blaid 44; Ymatal 0; Yn Erbyn 0; Cyfaswm 44.
**Cymeradwywyd y cynnig**

**4.00pm**
**Pwynt o drefn**
**Glyn Davies** ar Reoliadau Gwastraff Rhagnodedig Cymru 2001 a wnaed o dan y weithdrefn

Weithredol. Tynnodd y **Llywydd** sylw’r Aelodau at Reol Sefydlog 11.5 sy’n caniatau i’r Pwyllgor Deddfau ofyn i’r Cynulliad roi sylw arbennig i’r Gorchymyn a gynigir; ac at Reol Sefydlog 22.29 sy’n caniatau i Aelod gyflwyno cynnig i ddiddymu Gorchymyn cyn belled ag y gwneir hynny cyn pen 40 niwrnod ar ôl gwneud Gorchymyn o dan y weithdrefn Weithredol.

**4.08pm**
**Cynnig cyfansawdd i gymeradwyo**
*NDM644* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol: Yn gweithredu o dan Reol Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

- *Yn cymeradwyo:*

  Y Drafft o Orchymyn Cynllun Ardrethu Awdurdod Ydau Cartref (Amrywiad) Cymeradwyo) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2001.

- *Yn cymeradwyo:*

  Y Drafft o Orchymyn Awdurdod Ydau Cartref (Cyfradd Ardrethu) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2001

**Cynhaliwyd Pleidlais ar y cynnig cyfansawdd:**
O Blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39
**Cymeradwywyd y cynnig cyfansawdd**

**4.09pm**
**Cynnig i fabwysiadu’r Cod Ymarfer diwygiedig ar Ganiatau i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**
*NDM642* - Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu, o dan Reol Sefydlog 17.2, mabwysiadu Ail Argraffiad y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth (2001), a anfonwyd at yr Aelodau dros yr e-bost ar 30 Ebrill 2001.

Cynhaliwyd pleidlais
O Blaid 38; Ymatal 0; Yn Erbyn 0; Cyfaswm 38.
**Cymeradwywyd y cynnig**

**4.34pm**
**Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Ymchwiliad Phillips i BSE**
*NDM645* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 9.9., yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar y cyd â’r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, "Goblygiadau Ymchwiliad Phillips (BSE) i Gymru", a

osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2001.

**Cynhaliwyd y bleidlais**
O Blaid 38; Ymatal 0; Yn Erbyn 0; Cyfaswm 38.
**Cymeradwywyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.20pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 ddydd Iau, 10 Mai 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 3 MAI 2001**

Trefniadau Adeiladau Cynulliad Cenedlaethol Cymru – (LD761)

Report to the Assembly on proposals for changes to the Assembly's Standing Orders in accordance with Standing Order 34.1 - Revision to SO23 Section 3 - (LD760) - Dim copiau Cymraeg ar gael

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 2 MAI 2001**

Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2001 - (LD759)